Y coed caredig

Caredigrwydd / Gofal / Tynerwch

Daeth yr hydref. Roedd y tywydd yn dechrau oeri. Rhuai'r gwynt. Pistyllai'r glaw. Roedd y coed fesul un yn colli eu dail. Penderfynodd rhai o'r adar eu bod am gychwyn ar eu taith i wledydd cynhesach. Daeth y gwenoliaid at ei gilydd. Buont yn trydar drwy'r daith. Fel roedd yr haul yn machlud yn y gorllewin codasant i gyd i'r awyr a chychwyn ar eu taith i Affrica. Ond roedd un wennol fach ar ôl. Gwennol fach wantan oedd hon. Hi oedd yr olaf i hedfan o'r nyth. Doedd hi ddim yn gallu hedfan fel y gweddill. Fuasai hi byth yn gallu gwneud y daith yn ôl i Affrica. Roedd Affrica mor bell a hithau mor wantan.

O ddiwrnod i ddiwrnod roedd hi'n mynd yn oerach ac yn oerach. Aeth at y goeden dderw i chwilio am gysgod.

"Dwyt ti ddim yn mynd i gael cysgodi yn fy nghanghennau i," meddai'r goeden wrth y wennol fach. "Fel y gweli rydw i'n colli fy nail fesul un. I ffwrdd â ti!"

Hedfanodd y wennol fach at y goeden fedw.

"Beth wyt ti eisiau?" gofynnodd y goeden fedw yn sarrug.

"Dim ond cysgod yn ystod y tywydd oer," meddai'r wennol.

"I ffwrdd â ti, y munud yma," meddai'r goeden. "Cyn bo hir bydd fy nail i gyd wedi chwythu i ffwrdd. Dos i chwilio am gysgod i rywle arall."

Teimlai'r wennol fach yn ddigalon iawn erbyn hyn. Doedd neb yn cynnig cysgod iddi yn ystod y tywydd oer.

Ymhen dim gwelodd goeden oedd yn tyfu'n uchel i'r awyr. Aeth ati am sgwrs.

"Chwilio am gysgod ydw i," meddai'r wennol wrth y goeden bîn.

"Wel tyrd i mewn i'r pinnau yma. Does gen i ddim dail fel y coed eraill ond mae gen i binnau gwyrdd. Maen nhw'n drwchus a bydd digon o gysgod i ti yma."

Clywodd y goeden gelyn y sgwrs rhwng y goeden bîn a'r

wennol.
"Mae gen i ddigon o le i ti gysgodi. Er bod fy nail yn bigog eto i gyd maen nhw'n drwchus ac mae digon o le i ti gysgu'r nos yn eu canol.
Roedd yr eiddew yn gwrando'n astud ar y sgwrs.
"Mae gen innau ddigon o le i ti gysgodi," meddai'r goeden eiddew.
"Ond mae gen i rywbeth ychwanegol i ti," meddai wrth y wennol fach. "Mae yna ddigon o bryfed yn byw yng nghanol y dail a phan fyddi di eisiau bwyd fe gei di wledda ar y pryfed."
Roedd y wennol fach yn hapus iawn. Er bod y dderwen, y fedwen a'r coed eraill wedi bod yn gas a sarrug efo'r wennol mi roedd yna rai oedd yn barod i'w helpu.
Daeth yr eira, y rhew a'r barrug ond roedd y wennol fach yn glyd a chynnes yng nghanol dail ei ffrindiau. Drwy'r gaeaf bu'r wennol fach yn cysgodi yng nghanol y dail. Pan ddaeth y gwanwyn roedd hi wedi cryfhau ac yn disgwyl am ei ffrindiau yn ôl o Affrica.

O Dduw, helpa fi i fod yn garedig wrth bawb hyd yn oed y rhai dydw i ddim yn ffrindiau efo nhw. Amen.

✦ Ydych chi'n credu fod y dderwen a'r fedwen wedi bod yn angharedig tuag at y wennol fach? Pam?
✦ Pam fod y gwenoliaid yn mynd i Affrica ar ddiwedd yr haf?